O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 1747 (Cy. 173)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir y Fflint) 2013

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn ardal gorfodi sifil ac yn ardal gorfodi arbennig at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004. Effaith ymarferol y Gorchymyn yw galluogi Cyngor Sir y Fflint i orfodi'r gyfraith ar dramgwyddau parcio o fewn yr ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn drwy gyfundrefn cyfraith sifil, mewn cyferbyniad â gorfodi'r gyfraith gan yr heddlu neu wardeiniaid traffig yng nghyd-destun cyfraith trosedd.

Gellir cael Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn a Memorandwm Esboniadol oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Swyddfeydd y Goron, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 1747 (Cy. 173)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir y Fflint) 2013

*Gwnaed* *10 Gorffennaf 2013*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *12 Gorffennaf 2013*

*Yn dod i rym* *1 Hydref 2013*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan baragraff 8(1) o Atodlen 8 a pharagraff 3(1) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**) ac sydd bellach wedi ei freinio ynddynt hwy(**2**).

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi gwneud cais i Weinidogion Cymru i Orchymyn gael ei wneud o dan y pwerau hyn mewn cysylltiad â rhan o'i ardal.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â phrif swyddog Heddlu Gogledd Cymru yn unol â gofynion paragraff 8(3) o Atodlen 8 a pharagraff 3(4) o Atodlen 10 i Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Yn unol â hynny, mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn.

---

(**1**) 2004 p.18.

(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Yn rhinwedd adran 92 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004, dynodwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awdurdod cenedlaethol priodol o ran Cymru, at ddibenion Rhan 6 o'r Ddeddf honno.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sir y Fflint) 2013.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2013 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

**Dynodi ardal gorfodi sifil ac ardal gorfodi arbennig**

**2.** Mae Gweinidogion Cymru yn dynodi'r ardal a ddisgrifir yn yr Atodlen yn—

(a) ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio; a

(b) ardal gorfodi arbennig.

*Edwina Hart*

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a
Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

10 Gorffennaf 2013

# YR ATODLEN Erthygl 2

**Ardal a ddynodir yn ardal gorfodi sifil ar dramgwyddau parcio ac yn ardal gorfodi arbennig**

Sir y Fflint yn gyfan ac eithrio—

(a) Yr A55 i gyd, gan gynnwys ei ffyrdd ymuno ac ymadael, o fewn y sir;

(b) y darn hwnnw o'r A55, gan gynnwys ei ffyrdd ymuno ac ymadael, o'r ffin sirol â Swydd Gaer i Gyfnewidfa Drome Corner yr A548;

(c) y darn hwnnw o ffordd ddeuol yr A494, gan gynnwys ei ffyrdd ymuno ac ymadael, o Gyfnewidfa Drome Corner yr A548 i gyffordd yr A55 yng Nghyfnewidfa Ewloe.